Mewnwelediad a Deallusrwydd Medi 2026

Yn ystod mis Medi 2026, ymwelodd tîm Ymgysylltu'r Bwrdd Iechyd â **12** lleoliad ledled Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen, gan siarad â chyfanswm o **465** o bobl (**271** o fenywod a **194** o ddynion). Bu'r tîm yn ymgysylltu â phobl mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys Ffeiriau Croeso Coleg Gwent ac mewn gweithleoedd drwy gyflogwyr mawr.

Beth glywsom ni y mis hwn?

- Ffurfiodd Ffeiriau Croeso Coleg Gwent eleni gyfle gwych i hyrwyddo diogelwch yn yr haul, y Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin, a chymorth iechyd meddwl a lles, ymhlith nifer o bynciau eraill, i bobl ifanc a staff y coleg. Y prif themâu oedd:
  - Bu cryn ddiddordeb yn yr ymgyrch Ymwybyddiaeth o Sepsis, gyda llawer o fyfyrwyr yn dysgu am yr arwyddion a'r symptomau am y tro cyntaf, yn ogystal â rhannu straeon am eu profiadau o sepsis.
  - Roedd ymwybyddiaeth o ddiogelwch yn yr haul yn gymysg, gyda rhywfaint o amharodrwydd i ddefnyddio eli haul er gwaethaf deall ei bwysigrwydd.
  - Trafodaethau cadarnhaol ynghylch sgrinio, gan amlygu pwysigrwydd mynychu apwyntiadau ac annog aelodau o'r teulu a ffrindiau i wneud yr un fath pan gânt wahoddiad.
  - Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch rhoi'r gorau i ysmygu a fepio, gan alluogi myfyrwyr i gael eu cyfeirio at wasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu Help Me Quit am gymorth a chyngor.
- Codwyd ymholiadau ynghylch y meini prawf cymhwysedd ar gyfer y brechiad MenB, gan gynnwys sut y gall myfyrwyr sy'n dechrau yn y brifysgol gael mynediad at y brechlyn.
- Mae rhwystredigaeth ynghylch mynediad at ddeintyddiaeth y GIG yn parhau i gael ei mynegi. Dywedodd un trigolyn fod tri llenwad wedi disgyn allan, ond ei fod yn teimlo'n anghyfforddus ynghylch cwyno oherwydd pryderon y gallai golli mynediad at ei ddeintydd GIG.
- Rhannwyd profiadau gan bobl a oedd yn cael anawsterau wrth gael apwyntiadau gyda meddygon teulu, gyda gŵr yn dweud ei fod wedi gweld ei bod yn llawer haws gwneud hynny yn Lloegr pan oedd yn byw yno. Dywedodd wrthym fod Ap y GIG yn Lloegr yn llawer gwell o ran galluogi pobl i archebu apwyntiadau, gan nad yw ei feddygfa yng Nghymru yn cynnig cymaint o apwyntiadau drwy'r ap.
- Derbyniwyd adborth cadarnhaol am yr ystod o wybodaeth a rannwyd yn ystod sesiynau ymgysylltu, gyda thrigolion yn disgrifio deunyddiau ac ymgyrchoedd y Bwrdd Iechyd fel rhai addysgiadol, deniadol ac yn hawdd eu deall.



Beth nesaf?

Dros y misoedd nesaf, bydd y tîm yn parhau i rannu gwybodaeth am:

- Brechiadau gan gynnwys Ffliw, RSV a MenB, Ymwybyddiaeth o Sepsis, a chymorth iechyd meddwl.
- Gwasanaethau Sgrinio Canser a chymorth Iechyd Menywod ar gyfer iechyd mislif, gwasanaethau atal cenhedlu a'r menopos

The team will also continue to engage with Health Board staff across our hospital sites.

Mae'r holl adborth a dderbynnir yn cael ei gofnodi a'i adolygu i nodi themâu a thueddiadau allweddol. Rydym yn rhannu'r hyn rydyn ni wedi'i glywed gyda'r timau sy'n gyfrifol am y gwasanaethau hynny a chyda uwch arweinwyr. Mae'r mewnwelediadau yn helpu i siapio gwelliannau i wasanaethau, penderfyniadau cynllunio a pholisïau. Rydym hefyd yn anelu at gau'r ddolen trwy rannu diweddariadau gyda chymunedau fel y gall pobl weld sut mae eu hadborth wedi helpu i ddylanwadu ar newid. I gael rhagor o wybodaeth am ymgysylltu â'r gymuned, ewch i'n gwefan: **https://bipab.gig.cymru/amdanom-ni/ymgysylltu/ymgysylltu-cymunedol/**